

OWEN, EDWARD HUMPHREY (1850 - 1904), Tŷ Coch, Caernarfon, casglwr llyfrau a llawysgrifau a hanesydd lleol

Enw: Edward Humphrey Owen

Dyddiad geni: 1850

Dyddiad marw: 1904

Rhiant: Elizabeth Owen

Rhiant: John Owen

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: casglwr llyfrau a llawysgrifau a hanesydd lleol

Cartref: Tŷ Coch

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 20 Rhagfyr 1850, mab John Owen, marsiandwr coed, etc., ac Elizabeth ei wraig. Yr oedd i E. H. Owen ddiddordeb arbennig mewn hanes lleol ac yn enwedig yn hanes ei hynafiaid, ac arweiniodd hyn ef i gynnull llyfrgell werthfawr o lyfrau a llawysgrifau. Prynwyd y llyfrgell yn 1910 gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a chedwir hi ar ei phen ei hun ymlith y 'casgliadau sylfaenol.' Ceir manylion am rai o'r cyfrolau printiedig yn adroddiad (*Annual Report*) y Lyfrgell Genedlaethol am 1909-10. Disgrifir y llawysgrifau, **NLW MS 815-68** yn awr, yn *N.L.W. Handlist of MSS.* i, 61-7; ymysg y llawysgrifau y mae saith gyfrol a fu yng nghasgliad **Syr Richard Colt Hoare**, dwy gyfrol o gasgliad **William Williams**, Llandegai, a chyfrolau a fu'n perthyn i Jonathan Jones, goruchwyliwr trethi'r Llywodraeth, Caernarfon. Ceir amryw gasgliadau o achau ac o farddoniaeth ymysg y llawysgrifau. Bu farw 22 Ebrill 1904, a chladdwyd ef ym meddrod y teulu ym mynwent eglwys Llanfair-is-gaer.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)

Caernarvon and Denbigh herald, and North and South Wales independent, 29 Ebrill 1904

Llais Rhyddid, xix, 42-4

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 27 Ebrill 1904

Archifau LIGC: **NLW MS 13701D**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20732946**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). OWEN, EDWARD HUMPHREY (1850 - 1904), Tŷ Coch, Caernarfon, casglwr llyfrau a llawysgrifau a hanesydd lleol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-OWEN-HUM-1850>

Copïwr

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government